# Yr her:

Fel mae pawb yn dweud, mae'r rhain mewn gwirionedd yn amseroedd digynsail nad yw neb yn fyw heddiw erioed wedi'u profi o'r blaen. Yn y dyfodol, bydd plant mewn ysgolion yn dysgu am bellhau cymdeithasol, cloi i lawr a'r coronafirws yn ystod gwersi hanes.

Felly beth am greu darn o hanes trwy greu capsiwl amser Covid-19?




## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth ydych chi wedi mwynhau yn ystod y cyfnod yma?
- Gyda phwy ydych wedi treulio’r cyfnod yma?
- Sut ydych wedi teimlo yn ystod y cyfnod yma?
- Beth yw eich uchafbwyntiau?
- Beth ydych wedi gweld eisiau fwyaf?
- Sut mae pethau gartref yn wahanol nawr i sut roedden nhw ar ddechrau 2020?
- Ydych chi wedi gwneud rhywbeth newydd yn ystod y cyfnod yma?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Capsiwl Amser (Bl 3 & 4)

## Rhaid gwneud... / Must do...

- Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer.
- Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd.

- Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TTBlast ar J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)

Bl 3 – 2, 3, 4, 5 a 10
Bl 4 – 2, 3, 4,5, 6, 8 a 10

- Adio a thynnu

Bl 3 i ddefnyddio rhifau 2 ddigid ee 67 + 45 = / 86 – 34 =
Bl 4 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee 467 + 382 =

- Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd
- Darllen yr amser fesul 5 munud ac yna pob munud

Cadw'n heini – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw sessions 9:00 – 9:30am ar Youtube (cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')
Helpu – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.
Trafod - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.

## Dylech wneud... / Should do...

| Gorsaf Iaith | | Cyfri a Chyfrifo | | Cwtsh Creadigol | |
|---|---|---|---|---|---|
| ★ | Y dyfodol – rydym yn aml yn meddwl nôl i adeg cyn Covid-19. Rydym yn meddwl tipyn am sut i ymdopi nawr. Ond, sut fywyd yr ydych yn meddwl bydd gennym mewn 20 mlynedd? Ysgrifennwch baragraff am eich rhagfynegiadau. Pa swydd fydd gennych? Ble fyddwch yn byw? Sut fath o gartrefi bydd gennym? Sut fyddwch yn teithio? | ★ | Teipiwch 'Random Number Generator' yn Google. Daeth bocs i fyny ar y top. Rhowch 1000 mewn i 'Min' a 2020 fel 'Max'. Defnyddiwch hwn i greu rhif Blwyddyn. Yna, adiwch y digidau at ei gilydd e.e. 1097 ~ 1 + 9 + 7 + 1 = Pa strategaethau bydd yn eich helpu? Adio rhifau sy'n gwneud 10? Oes rhifau dwbl? | ★ | Ewch ati i greu ac addurno capsiwl atgofion (bocs). Cofiwch i lenwi'r bocs gyda'r pethau oedd yn bwysig i chi yn ystod y cyfnod yma e.e. lluniau, hoff rysait, hoff degan, cerrig wedi peintio, darn o waith o'r ysgol, llythyr oddi wrth Mr Davies ayyb. |
| ★★ | Holiadur Teulu ~ Bydd e'n bwysig mewn blynyddoedd i ddod, i gael gwybodaeth am fywyd yn ystod Covid-19. Ewch ati i greu holiadur, neu defnyddiwch y rhai ar wefan yr ysgol, i holi aelodau o'ch teulu am yr adeg yma. | ★★ | Ewch ati i ddysgu pennill "30 days has September." Yna, ewch ati i greu tabl o'r misoedd o flwyddyn a sawl diwrnod sydd ym mhob mis. Meddyliwch am un ddigwyddiadau pwysig sydd yn digwydd ym mhob mis. | ★★ | Gwnewch linell amser yn dangos holl ddigwyddiadau pwysig eich bywyd chi. Gallwch gynnwys eich geni, geni brodyr/chwiorydd, anifeiliaid anwes, dechrau ysgol, symud tŷ ayyb. Defnyddiwch yr enghraifft a thempled ar wefan yr ysgol i'ch helpu. |
| ★★★ | Dyddiadur – Dilynwch y linc ar wefan yr ysgol i wrando ar stori 'Just Another Ordinary Day' Mae'n sôn am ddiwrnod arferol Amanda. Mae diwrnod arferol y dyddiau yma yn wahanol iawn. Beth am ysgrifennu dyddiadur i ddisgrifio diwrnod arferol yn ystod y cyfnod clo. | ★★★ | J2Data, Bas Data Pob 10 mlynedd, mae'r wlad yn gwneud cyfrifiad. Mae hwn yn helpu ni i gadw cofnodion. Ydych chi gallu creu cyfrifiad teuluol gan ddefnyddio Bas Data. (J2Easy - J2Data - Bas Data). Mae angen meddwl am y categoriau Enw, Blwyddyn geni, Mis geni, Swydd, Lle geni am bob aelod o'r teulu. | ★★★ | Mae lluniau yn ffordd wych o gadw atgofion a dangos i bobl y dyfodol sut oedd bywyd yn 2020. Tynnwch 5 ffotograff sy'n dangos beth rydych chi wedi bod yn gwneud yn ystod y clo mawr, e.e. coginio, garddio, gwaith ysgol, cadw'n heini neu hyd yn oed strydoedd tawel eich ardal leol. Rhowch nhw ar Hwb neu Trydar. |

## Gallaf wneud... / Can do...

Heriau LEGO
Llyfrau sain David Walliams
Newsround – darllen y newyddio diweddaraf
ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp
Science experiment
Science Investigations – STEM website stemsational.com
Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim
www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS

Minecraft
Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg
Carol Vorderman – 'My Maths School'
Cip ar Fathemateg
SGILIAU – gemau i'w chwarae adref
Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp
Orielodl – fideo cam wrth gam
Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p

Dawnsio gyda Oti Mabuse
PBSkids.org - Gemau Darllen i blant
BBC Bitesize
Hour of Code
Gwefan TopMarks Mathemateg
Gwefan MathsFrame Mathemateg
mathsalamanders.com